Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Rŵan ydi'r amser i ddyblu ein hymdrechion

Gyda chyfradd uchel achosion yng Ngwynedd, pryder am yr amrywiolyn Omicron a'r Nadolig rownd y gornel, dyma'r amser i adolygu eich mesurau i atal COVID-19 rhag lledaenu:

- Diweddarwch eich asesiad risg coronafeirws gorfodol. Am y wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf ewch i : https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws

- Sicrhewch fod staff a chwsmeriaid yn cadw at y rheolau ar orchuddion wyneb. Gellir lawrlwytho posteri a thaflenni i

hyrwyddo’r defnydd o orchuddion wyneb mewn safleoedd manwerthu yma: https://llyw.cymru/gwisgo-gorchuddion-wyneb-mewn-manwerthu-pecyn-hyrwyddo

- Anogwch staff i gymryd profion LFT rheolaidd, hunan-ynysu a chael profion os oes ganddyn nhw symptomau a chael eu brechu. I gael gwybodaeth am ble mae citiau LFT am ddim ar gael, ewch i: https://llyw.cymru/prawf-COVID-19-cyflym-heb-symptomau

Am yr holl reoliadau a chanllawiau diweddaraf, ewch i: https://llyw.cymru/coronafeirws

## ARIANNU: Cronfa Gyfalaf Cerddoriaeth (MCF) Cymru Greadigol

Gall busnesau cerddoriaeth bach a chanolig bellach wneud cais am gyllid a fyddai’n mynd tuag at wella a chynyddu rhagolygon masnachol a chynaliadwyedd eu busnesau. Mae’r Gronfa bellach ar agor, ac yn cau ar ddydd Gwener 17 Rhagfyr 2021 am 12:00pm. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-gyfalaf-cerddoriaeth-mcf-cymru-greadigol

## DIGWYDDIAD: Cymru Iach ar Waith – Digwyddiad Cymeradwyaeth COVID-19 8 Rhagfyr 2021

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ac yn dathlu’r camau arloesol a roddwyd ar waith gan gyflogwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19, yn Nigwyddiad Cymeradwyo Covid-19 Cymru Iach ar Waith, a gynhelir ddydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://freshwater.eventscase.com/cy/HWWCommendationEvent

## CYMORTH: Parcio Nadolig am ddim yng Ngwynedd 11-28 Rhagfyr 2021

Fel rhan o ymdrechion i gefnogi busnesau lleol trwy annog pobl i siopa'n lleol y Nadolig hwn, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig parcio am ddim ym meysydd parcio'r awdurdod o 11 hyd 28 Rhagfyr. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd29Tach2021

## CYFLE: Dylunwyr y dyfodol

Mae myfyrwyr ar y cwrs Dylunio Cynnyrch ym Mangor wedi'u hyfforddi mewn meddwl yn greadigol a datrys problemau, ymchwil, CAD, dylunio graffeg, prototeipio a gwneuthuriad. Bydd myfyrwyr ar gael yn ddi-gost i helpu busnesau am 6 wythnos rhwng 21 Chwefror 2022 – 1 Ebrill 2022. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu prosiect, cynnal lleoliad neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

productdesign@bangor.ac.uk

## GWOBRAU: Hufenfa De Arfon yn cipio record o wobrau rhyngwladol

Llongyfarchiadau i gwmni cydweithredol ffermwyr yn Chwilog, Hufenfa De Arfon, am ennill pedair medal aur, dwy arian a phum efydd yn y Gwobrau Caws a Llaeth Rhyngwladol (International Cheese and Dairy Awards). Mwy am hyn yn:

https://bit.ly/3oltV8e

## BREXIT: Calendr gweminarau

Gall sefydliadau sy'n masnachu gyda'r UE ddarganfod am weminarau Llywodraeth y DU sydd ar y gweill – yn canolbwyntio ar symud nwyddau penodol rhwng yr UE a Phrydain Fawr – wrth fynd i:

https://bit.ly/3qBMvua

## BREXIT: Llai na mis nes cyflwyno rheolaethau tollau llawn

Mae Cyllid a Thollau EM yn atgoffa busnesau i baratoi ar gyfer newidiadau tollau a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2022, ewch i:

https://bit.ly/3lxSgFX

## CYNGOR: Tŷ'r Cwmnïau – Ffeilio cyfrifon yn gynnar ac ar-lein i osgoi oedi

Cynghorir busnesau sydd am ffeilio cyfrifon gyda Thŷ'r Cwmnïau erbyn diwedd mis Rhagfyr i ddefnyddio eu gwasanaethau ar-lein lle bo hynny'n bosibl a chaniatáu digon o amser cyn y dyddiad cau. Ewch i:

https://bit.ly/3Ij48pi

## DYSGU: Ehangu Gorwelion gydag Ecwiti BYW

Mae fideo o'r digwyddiad Ecwiti BYW Banc Datblygu Cymru ym mis Tachwedd bellach ar gael, ewch i:

https://www.ecwiti.cymru/copy-of-agenda

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru